

Amgueddfa Cymru

Polisi mynediad at y casgliadau a'r defnydd a wneir ohonynt

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Amgueddfa Cymru yn cadw casgliadau mewn ymddiriedolaeth ar gyfer pobl Cymru. Felly, rydym yn eu gwneud yn hygyrch i bawb a hwyluso eu defnydd gan genedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae ein dogfen Weledigaeth 2015, *Ysbrydoli Pobl, Newid Bywydau*, wedi ailddatgan ein hymrwymiad i sicrhau bod y casgliadau hyd yn oed yn fwy perthnasol a hygyrch i bobl heddiw ac i genedlaethau'r dyfodol. Fodd bynnag, rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng gwella mynediad a defnydd ar y naill law a chadwraeth, gofal a diogelwch y casgliadau ar y llall, oll gyda'r nod o sicrhau eu bod yn goroesi yn y tymor hir.

1.2 Rydym yn cydnabod bod casgliadau'n cael eu caffael er mwyn y wybodaeth sydd ynddynt yn ogystal ag unrhyw werth esthetig a'u perthnasedd i Gymru. Mae darparu mynediad i'r casgliadau a'r wybodaeth a sicrhau eu bod ar gael ar gyfer gwaith ymchwil, dysgu, ymgysylltu, arddangosfeydd a benthyciadau yn un o ddyletswyddau sylfaenol ein hamgueddfeydd.

1.3 Dim ond un rhan o'n Fframwaith Rheoli Casgliadau yw'r polisi hwn, ac felly mae'n gweithredu law yn llaw â pholisïau a strategaethau eraill yr amgueddfa sydd wedi'u rhestru yn ein *Polisi Rheoli Casgliadau*.

2. Amcan

2.1 Mae'r polisi hwn yn esbonio sut fyddwn ni'n gwneud y casgliadau'n hygyrch ac yn gwneud siŵr bod modd eu defnyddio o fewn cyfyngiadau rhesymol adnoddau, cadwraeth a diogelwch.

3. Diffiniad o Fynediad at y Casgliadau

3.1 Mynediad at y casgliadau yw'r hawl, cyfle neu fodd o ddarganfod, defnyddio neu ymdrin â gwrthrychau neu sbesimenau a/neu wybodaeth am wrthrychau neu sbesimenau. (PAS197:2009).

4. Egwyddorion Mynediad ac Ymgysylltu

4.1 Mae'r Amgueddfa'n ymrwymo i gynnig y dulliau mwyaf eang ac addas o fynediad i'w chasgliadau, ei harbenigedd, ei chyfleusterau a'i gwasanaethau. Mae'r Amgueddfa'n ymroi i oresgyn unrhyw rwystrau ffisegol, deallusol, diwylliannol, agweddol, digidol ac ariannol, trwy gynnwys amrywiaeth a chydarddoldeb ym mhopeth a wnawn.

4.2 Darperir mynediad ffisegol trwy gyfrwng arddangosiadau, arddangosfeydd dros dro, benthyciadau, rhaglenni dysgu ac ymgysylltu (a all gael eu cynnal ar un o safleoedd yr Amgueddfa neu yn y gymuned) a mynediad i astudio a chyfeirio at y casgliadau.

4.3 Bydd yr Amgueddfa yn rheoli unrhyw wrthdaro rhwng mynediad at y casgliadau a gofal hirdymor yn unol â'r *Polisi Gofal a Chadwraeth Casgliadau* ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol.

4.4 Byddwn yn ceisio sicrhau bod gwybodaeth am ein holl gasgliadau ar gael ar blatfformau digidol amrywiol. Bydd hyn yn cynnwys catalogau ar-lein, defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, ac arddangosfeydd rhyngweithiol mewn orielau. Bydd defnyddwyr yn gallu gweld ein cynnwys ar-lein ac ymgysylltu a chyfrannu at gynnwys a gynhyrchir gan defnyddwyr.

4.5 Bydd unrhyw ffioedd mynediad yn cael eu pennu yn unol â'n polisi codi tâl ac mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan <https://amgueddfa.cymru/rhyddid-gwybodaeth/datganiad-gorchwyl-cyhoeddus>. Byddwn yn ymdrin â cheisiadau am wybodaeth dan y weithdrefn Rhyddid Gwybodaeth yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

4.6 Byddwn yn hyrwyddo mynediad at y casgliadau er mwyn hyrwyddo gwybodaeth a datgloi creadigrwydd. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn codi tâl am fynediad i arddangosfeydd dros dro arbennig, gwaith hwyluso, digwyddiadau ac ambell ymholiad am y casgliadau yn unol â'n polisi codi tâl.

4.7 Lle na fydd modd caniatáu cais am fynediad, e.e. yn sgil amodau rhodd neu fenthyciad, byddwn yn cynnig y rhesymau llawn dros wrthod os mai dyna yw'n penderfyniad. Fodd bynnag, byddwn yn rhoi'r cyfle i archwilio ffotograff neu replica o'r gwrthrychau neu'r eitemau dan sylw lle bo hynny'n rhesymol bosibl.

4.8 Byddwn yn cyfyngu ar fynediad i wrthrychau neu sbesimenau hynod werthfawr, bregus neu sensitif (e.e. sbesimenau teip neu weddillion dynol (gweler y *Polisi Gweddillion Dynol*) i'r rhai hynny y gellir cyfiawnhau mynediad iddynt ar gyfer anghenion diwylliannol neu ymchwil.

4.9 Bydd angen gwneud cais ffurfiol am ddadansoddiad dinistriol o samplau neu ddeunyddiau sy'n ofynnol ar gyfer astudiaethau DNA (planhigion neu anifeiliaid) (gweler Atodiad A a'r *Polisi Gweddillion Dynol*).

5. Ystyriaethau Moesegol a Deddfwriaethol Penodol

5.1 Bydd yr Amgueddfa yn darparu mynediad i gasgliadau yn unol â Chod Moesegol Cymdeithas yr Amgueddfeydd ar gyfer Amgueddfeydd a'r Canllawiau Moesegol ar Fynediad a Defnyddio. Mae ein Polisi Gweddillion Dynol yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Deddf Meinweoedd Dynol 2004 a chanllawiau'r Awdurdod Meinweoedd Dynol sy'n gysylltiedig â mynediad at feinweoedd dynol a'u harddangos yn gyhoeddus. Rhaid i fynediad ar gyfer samplau DNA gydymffurfio â'r meini prawf yn Atodiad A.

5.2 Bydd mynediad at wybodaeth am gasgliadau yn cael ei wneud yn unol â'r Deddfau Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth y manylir arnynt yn ein Polisi ar Wybodaeth am Gasgliadau.

6. Mynediad ac Ymgysylltu trwy Arddangosiadau, Arddangosfeydd a Digwyddiadau

6.1 Byddwn yn cyflwyno amrywiaeth eang o arddangosfeydd ac arddangosiadau. Rydym yn diffinio cynulleidfaoedd targed ac yn datblygu dehongliadau, wedi'u llywio gan werthusiad, i'r cynulleidfaoedd hyn (gweler y *Strategaeth Ddehongli*).

6.2 Byddwn yn darparu arddangosfeydd tymor hirach a dros dro o sbesimenau a gwrthrychau yn y casgliad.

6.3 Byddwn yn cynnal arddangosfeydd dros dro sy'n caniatáu i eitemau gael eu harddangos mewn cyd-destunau gwahanol ac ochr yn ochr ag eitemau a fenthycwyd o gasgliadau eraill (gweler *Canllawiau Arddangos yr Amgueddfa*).

6.4 Bydd ein harddangosiadau yn cyflwyno gwybodaeth am eitemau trwy labeli, testunau ar waliau a gwybodaeth gyd-destunol ac ategol arall. Byddwn yn manteisio ar dechnolegau newydd i gyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd arloesol sy'n caniatáu mynediad i wybodaeth am yr eitemau a'r themâu yn yr orielau a thu hwnt.

6.5 Byddwn yn hysbysebu arddangosfeydd a digwyddiadau'n eang mewn deunyddiau cyhoeddusrwydd, ar ein gwefan, trwy'r cyfryngau cymdeithasol ac yn y wasg leol a chenedlaethol a'r cyfryngau eraill.

6.6 Byddwn yn darparu amrywiaeth eang o raglenni dysgu ac ymgysylltu a ddatblygir i ddiwallu anghenion a dulliau dysgu ein defnyddwyr, diddordebau a'n dulliau dysgu amrywiol.

7. Mynediad ffisegol at wrthrychau neu sbesimenau

7.1 Ni fyddwn yn gwahaniaethu ar fater mynediad ar sail ffisegol, gallu synhwyrdd neu ddeallusol, tarddiad diwylliannol, oedran neu statws cymdeithasol, a byddwn yn ymroi i ehangu mynediad cyffredinol a chynhwysiant cymdeithasol.

7.2 Byddwn yn nodi pa wrthrychau a sbesimenau o'r casgliadau y gall pobl eu trin a'u cyffwrdd heb oruchwyliaeth. Hefyd, byddwn yn mynd ati i gaffael gwrthrychau neu sbesimenau ar gyfer hyn (gweler y *Polisi Datblygu'r Casgliad*).

7.3 Byddwn yn cynnig cyfleusterau ar gyfer astudio a defnyddio'r casgliadau. Bydd y cyfleusterau hyn yn agored i bawb, o fewn y cyfyngiadau arferol ar fynediad a defnydd, ac yn amodol ar y canllawiau trin penodol ar gyfer y casgliad dan sylw, a'r staff sydd ar gael.

7.4 Lle bo modd, byddwn yn mynd ag eitemau o'n casgliadau i leoliadau oddi ar y safle ar gyfer digwyddiadau (e.e. gweithdai cymunedol, yr Eisteddfod) er mwyn gwneud y gorau o gyfleoedd mynediad ac ymgysylltu.

7.5 Byddwn yn sicrhau bod lleoedd sy'n arddangos ein casgliadau ar gael at ddefnydd masnachol (achlysuron, ffilmio) cyn belled nad yw hyn yn creu sefyllfa foesebol sy'n groes i'n safbwynt ni. Byddwn yn sicrhau bod digwyddiadau o'r fath yn cael eu cynnal yn unol â Chanllawiau Cynllun Indemniad y Llywodraeth.

7.6 Byddwn yn sicrhau bod unrhyw ddeunyddiau (e.e. inc, dyfrlliwiau, beiros ac ati) sy'n cael eu defnyddio gerllaw'n casgliadau yn cael eu cymeradwyo cyn eu defnyddio.

8. Benthyciadau Allan

8.1 Byddwn yn annog ac yn galluogi amgueddfeydd ac orielau eraill i arddangos eitemau o'r casgliadau (gweler y *Polisi ar Fenthyciadau Allan*).

8.2 Byddwn yn annog sefydliadau ac ysgolheigion eraill i fenthycu eitemau o'r casgliadau (gweler y *Polisi ar Fenthyciadau Allan*).

9. Benthyciadau i Mewn

9.1 Gallem fenthycu eitemau ar gyfer projectau ymchwil er mwyn gwella'r naratif a gyflwynir mewn arddangosfeydd ac er mwyn creu gwybodaeth newydd am y casgliadau.

9.2 Byddwn yn benthycu eitemau o gasgliadau eraill i'w harddangos mewn arddangosfeydd dros dro er mwyn ein galluogi i arddangos casgliadau mewn cyd-destunau gwahanol.

10. Darparu a Defnyddio Gwybodaeth am Gasgliadau

10.1 Mae'r Amgueddfa'n darparu mynediad ar-lein i'r casgliadau a gwybodaeth am gasgliadau trwy wefan yr Amgueddfa a chatalogau'r casgliadau, sy'n cael eu diweddarau'n rheolaidd gyda gwybodaeth newydd wrth iddi ddod i law (gweler y *Polisi Gwybodaeth am Gasgliadau*).

10.2 Darperir gwybodaeth fanylach am y casgliadau trwy gatalogau (wedi'u hargraffu neu heb eu cyhoeddi) a thrwy gofrestrau a mynegeion ein casgliadau.

10.3 Bydd copïau o wybodaeth neu ddeunyddiau'r Amgueddfa ar gael, lle caniateir hynny gan reoliadau hawlfraint a lle nad oes unrhyw broblemau diogelu data, ond efallai y byddwn yn codi tâl ar sail y gost i ni o ryddhau'r wybodaeth honno. Bydd unrhyw ffioedd yn cael eu pennu yn unol â'n polisi codi tâl ac mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan <<https://amgueddfa.cymru/rhyddid-gwybodaeth/datganiad-gorchwyl-cyhoeddus>>. Byddwn yn ymdrin â cheisiadau am

wybodaeth dan y weithdrefn Rhyddid Gwybodaeth yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

10.4 Bydd yr Amgueddfa'n ateb ymholiadau am ei chasgliadau er mwyn ategu gwybodaeth a ddarperir yn rhywle arall.

10.5 Mae'r Amgueddfa'n darparu gwasanaeth, yn amodol ar adnoddau, lle bydd staff curadurol yn mynegi barn ar eitemau lle mae ganddynt yr arbenigedd perthnasol.

10.6 Weithiau, mae'n bosib y bydd angen i ni gyfyngu ar wybodaeth neu gadw gwybodaeth gyfrinachol sy'n gysylltiedig â chaffael sbesimen neu wrthrych (er enghraifft, er mwyn gwarchod safleoedd bregus neu barchu cais unigolyn am gyfrinachedd).

10.7 Byddwn yn sicrhau bod nodiadau o waith ymchwil, a gynhaliwyd naill ai gennym ni, neu ar ein rhan, ar gael dair blynedd ar ôl cwblhau'r gwaith casglu gweithredol o ddata neu sbesimenau, boed y gwaith wedi'i gyhoeddi ai peidio, ac yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol am wybodaeth.

11. Ffotograffiaeth a ffilmio

11.1 Caniateir ffotograffiaeth ar safleoedd ein Hamgueddfa at ddibenion personol ac anfasnachol yn unig.

11.2 Gwaherddir defnyddio fflach, treipodau na ffyn hun-luniau lle ceir gweithiau celf heb wydr arnynt neu unrhyw wrthrychau eraill heb eu hamddiffyn.

11.3 Ni chaniateir ffotograffiaeth mewn arddangosfeydd benthyg na ffotograffiaeth o eitemau wedi'u benthyg ar unrhyw gyfrif.

11.4 Ni chewch dynnu ffotograff o weddillion dynol sy'n cael eu harddangos ar unrhyw gyfrif (*Gweler y Polisi Gweddillion Dynol*).

11.5 Byddwn yn cyflenwi a thrwyddedu delweddau at ddibenion masnachol trwy Fentrau Amgueddfa Cymru.

Atodiad A – Ceisiadau am samplau a gwaith dadansoddi (gan gynnwys DNA)

Rydyn ni'n croesawu'r cyfle i'r casgliadau sydd dan ein gofal gael eu defnyddio mewn cymaint o ffyrdd gwahanol â phosibl, er mwyn hybu astudiaeth wyddonol.

A.1 Dylai pob cais am ymchwil sy'n cynnwys tynnu sampl o eitem neu sbesimen yng nghasgliad yr Amgueddfa gael ei anfon at Bennaeth y maes casglu perthnasol. Byddwn yn gofyn i'r ymholwr lenwi ffurflen cais samplu sy'n ymdrin â:

- Natur y project.
- Cyfiawnhad dros ddefnyddio'r deunydd y gofynnwyd amdano.
- Tystiolaeth o hanes llwyddiannus yn defnyddio'r dechneg arfaethedig.
- Tystiolaeth bod y dechneg arfaethedig yn cynhyrchu canlyniadau dibynadwy.
- Cefnogaeth gan arbenigwyr cydnabyddedig yn y maes.

A.2 Byddwn yn gwerthuso unrhyw gynnis o safbwynt pwysigrwydd gwyddonol ac ymarferoldeb technegol.

A.3 Bydd angen cynnal asesiad o bob cais am samplau dinistriol o weddillion dynol gan aseswyr mewnol ac allanol.

A.4 Bydd angen i ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â gofynion cyfreithiol ffurfiol i:

- Gyflwyno dilyniannau wedi'u tynnu o sbesimenau'r Amgueddfa i archif sefydledig â mynediad i'r cyhoedd (e.e. EMBL neu SRA) a darparu'r rhifau derbyn o gopiâu cyfrifiadurol ddarllenadwy o ddata dilyniant cyn gynted ag y bo modd ond ddim hwyrach na'r dyddiad cyflwyno ar gyfer unrhyw gyhoeddiad sy'n deillio o'r gwaith.
- Darparu copiâu o brotocolau arbrofol sy'n wahanol i'r dulliau cyhoeddedig.
- Cyhoeddi ar y cyd â staff yr Amgueddfa os ydynt wedi cyfrannu'n sylweddol at y gwaith.
- Cydnabod y defnydd o'r casgliadau mewn cyhoeddiadau sy'n cynnwys defnyddio sbesimenau'r Amgueddfa.
- Rhoi adborth i ni, gan nodi rhesymau posib am broblemau y daethpwyd ar eu traws, yn enwedig os yw'r project yn methu.
- Ni cheir trosglwyddo deunydd i drydydd parti neu ei ddefnyddio ar broject arall wedyn heb ein caniatâd ni yn y lle cyntaf.

A.5 Byddwn yn cadw'r holl hawliau i ddilyniannau DNA sy'n deillio o sbesimenau yn ein casgliadau, oni bai bod yr hawliau yn nwylo'r wlad wreiddiol o hyd. Ni cheir manteisio'n fasnachol ar yr ymchwil na chanlyniadau'r gwaith ymchwil mewn unrhyw fodd heb ein caniatâd ni yn gyntaf. Gallwn wrthod caniatâd o'r fath yn ôl ein disgrisiwn absoliwt, neu ei ganiatáu, yn amodol ar unrhyw amodau y gallem benderfynu arnynt, ac efallai y byddwn yn gofyn am gytundeb ar rannu'r manteision ariannol a ddaw yn sgil hyn. Bydd egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Biolegol yn llywio'r penderfyniadau hyn.

A.6 Efallai y bydd sbesimenau biolegol o'r tu allan i'r DU a gasglwyd ar ôl 12 Hydref 2014, yn cael eu cwmpasu gan Brotocol Nagoya ac angen caniatadau perthnasol gan y wlad gyflenwi er mwyn dadansoddi DNA (gweler

<https://www.cbd.int/abs/nagoya-protocol/signatories/default.shtml>). Hefyd, rhaid cydymffurfio ag unrhyw gontractau gyda'r gwledydd cyflenwi cyn i Brotocol Nagoya ddod i rym. Ni fyddwn yn caniatáu samplau DNA o sbesimenau os nad yw'r caniatâd gofynnol ganddynt (Telerau gyda Chytundeb y Naill Ochr a'r Llall a Chydsyniad ar sail penderfyniad cytbwys blaenorol). Os ystyrir bod hynny'n fanteisiol, efallai y byddwn yn cefnogi cais am ganiatâd ôl-weithredol gan y wlad gyflenwi.

A.7 Rydym yn cadw'r hawl i fynnu bod gwaith tynnu meinweoedd yn cael ei wneud mewn labordy priodol.

A.8 Rydym yn cadw'r hawl i wrthod caniatâd ar gyfer cymryd samplau dinistriol o sbesimenau'r Amgueddfa.

A.9 Ni fyddwn yn dosbarthu unrhyw ddata a dderbyniwn gan unrhyw waith ymchwil nac yn rhoi cyhoeddusrwydd i unrhyw waith arloesol tan y bydd wedi'i gyhoeddi.

A.10 Byddwn yn codi tâl am unrhyw dreuliau sy'n gysylltiedig â hwyluso cais am ddadansoddiad dinistriol.